# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**2018 dccc 5**

*Gorfodi*

### 16 Darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad

(1) Caiff swyddog awdurdodedig i awdurdod lleol sy'n mynd i fangre o dan adran 13, neu yn rhinwedd gwarant a ddyroddir o dan adran 14 neu 15, fynd ag unrhyw bersonau eraill ac unrhyw gyfarpar y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn briodol.

(2) Os yw meddiannydd mangre y mae swyddog awdurdodedig wedi ei awdurdodi i fynd iddi drwy warant o dan adran 14 neu 15 yn bresennol ar yr adeg y mae'r swyddog awdurdodedig yn ceisio gweithredu'r warant, rhaid i'r swyddog—

(a) rhoi enw'r swyddog i'r meddiannydd;

(b) cyflwyno i'r meddiannydd dystiolaeth ddogfennol o awdurdodiad y swyddog;

(c) cyflenwi copi o'r warant i'r meddiannydd.

(3) Os nad yw mangre y mae swyddog awdurdodedig wedi ei awdurdodi i fynd iddi drwy warant o dan adran 14 neu 15 wedi ei meddiannu, neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, yna wrth adael y fangre rhaid i'r swyddog ei gadael wedi ei diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad anawdurdodedig ag yr oedd pan aeth y swyddog iddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 16 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** A. 16 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Adran 16.